Cerdded a siarad

Trosolwg

Mae byd natur yn darparu amgylchedd cyfoethog ar gyfer archwilio lleferydd ac iaith. Gall dysgu geirfa newydd mewn cyd-destun helpu plant i wneud synnwyr o'u byd.



Gweithgareddau

Ewch â grwpiau bach o blant am dro mewn man naturiol gerllaw. Mae cerdded yn deffro'r synapsau yn yr ymennydd ac mae amgylchedd naturiol, amlsynhwyraidd yn darparu pethau newydd i'w harchwilio a'u trafod. Gall gwrando ar fyd natur helpu'r plant i ddatblygu eu gallu i ganolbwyntio am gyfnodau hirach, a datblygu eu sgiliau gwrando. Mae cerdded a siarad yn hybu datblygiad iach o ran yr ymennydd, ac yn gallu helpu i reoleiddio ymddygiad. Gall canllawiau adnabod byd natur eich cynorthwyo i helpu'r plant i adnabod y pethau y maent yn eu darganfod.

Offer

- Bag i newid oddi ar y safle
- Pecyn cymorth cyntaf
- Ffôn symudol wedi'i wefru a manylion cyswllt
- Asesiad risg a ffurflenni caniatâd
- Unrhyw feddyginiaeth ar gyfer y grŵp
- Canllawiau adnabod byd natur

Cwestiynau allweddol

Sut mae'r tywydd heddiw?
Beth galli di ei weld, ei glywed a'i arogli?
Sut rwyt ti'n teimlo heddiw?
Gall plant sy'n gweld cyswllt llygad yn anodd deimlo bod cerdded ochr yn ochr yn lleihau'r angen iddynt orfod wynebu pobl eraill.

Deilliannau dysgu

- Iechyd a lles – awyr iach, ymarfer corff a chyfleoedd i reoleiddio
- Chwarae – archwilio, sylwi, dilyn diddordebau a syniadau personol
- Llythrennedd – siarad, gwrando, sgwrsio'n ôl ac ymlaen

Symud y dysgu yn ei flaen

Mae ymweliadau rheolaidd yn galluogi'r plant i ymgyfarwyddo, ac mae ailadrodd yn rhoi cyfleoedd i ymarfer geiriau newydd. Ceisiwch sicrhau bod cyfleoedd rheolaidd i fynd am dro ym myd natur yn dod yn rhan o'ch trefn arferol.

Cynigiwch fyrbryd bach – mae cnoi'n helpu i gryfhau'r cyhyrau ar gyfer lleferydd, ac yn aml bydd plant yn bwyta yn yr awyr agored pan fyddant yn dewis peidio dan do.